# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
## ANT1 - ARFORDIR SETLEDIG SAUNDERSFOOT













Nodiant y Map:

Ffin y Parc Cenedlaethol

Ffin yr ANT

Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

### Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol
Darn o dir sy'n gorwedd o flaen bae llydan, a'r anheddiad a'r iseldir tonnog cysylltiedig, rhwng Dinbych-y-pysgod a ffin ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol. Mae'r cysylltiad cryf gyda'r arfordir yn rhoi ymdeimlad o le yn llawer o'r ardal.

### Nodweddion Gweledol a Synhwyraidd
Dyma ardal ddymunol o gymoedd gyda rhai cysylltiadau gweledol at yr arfordir ar hyd Bae Saundersfoot . Mae'n cynnwys sawl pentref bach arall, gan gynnwys Summerhill, Llanrhath, Wiseman's Bridge a Sardis, sy'n swatio mewn ardaloedd coediog ar hyd sawl cwm bychan, gyda nentydd yn llifo i'r arfordir. Mae llechweddau'r cymoedd yn goediog i raddau helaeth gyda chyfuniad o fathau o goed o fewn tirwedd amaethyddol ehangach. Mae yna gymeriad ystad nodedig i'r dirwedd yn yr ardal o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet . Er bod yr anheddiad yn eithaf dwys, mae'r tirffurf tonnog gyda dyffrynnoedd afon bach yn rhedeg i'r arfordir, a'r lefel o orchudd coetir a thir amaethyddol sy'n bresennol, yn golygu nad ydyw'r ffurf adeiledig yn ymwthiol ar y cyfan, ac eithrio rhannau uwch Saundersfoot pan welir hwy ar draws y bae. Dominyddir Saundersfoot gan ddatblygiad trefol y dref fawr hon. Nodwedd o'r arddull adeiledig yw'r tyfiant o amgylch canol hanesyddol y dref, sy'n dai modern yn bennaf, llawer ohonynt heb fawr o gysylltiad â lleoliad arfordirol y dref, ond mae gan lan y môr a chanol y dref gysylltiad arfordirol cryf sy'n rhoi ymdeimlad o le. Mae meysydd carafannau arfordirol yn ymwthiol yn weledol yn Nhrevayne a New Hedges.

### Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd
Mae cynefinoedd lled-naturiol yn cynnwys coetiroedd deilgoll a chonifferaidd (planhigfeydd gan fwyaf); prysg aeddfed; dyffrynnoedd nant coediog cysgodol; prysg arfordirol; clogwyni; traethau caregog a thywodlyd a strwythurau artifisial (amddiffynfeydd arfordirol); stormdraethau cobl/cerrig crwn. Mae ystlumod yn defnyddio hen geuffyrdd a thwnneli pyllau ar yr arfordir. Yn y Gaeaf, mae yna nifer uchel o fôr-hwyaid du yn ymgasglu oddi ar y lan; mae gwylanod, piod môr a chwtiaid y traeth yn ymgasglu ar y traeth.

### Nodweddion Daearegol
Traethau tywodlyd llydan gydag ardaloedd sylweddol o lwyfandir craig, gyda chlogwyni tu ôl a llethr arfordirol serth cysylltiedig. Ceir cribyn o raean bras yn Llanrhath ac amddiffynfeydd morol yn Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod. System o gymoedd arfordirol wedi'u torri'n ddwfn, sy'n cynnwys sylfaen wastad a chul yn y de. Nid yw'r rhan uchaf yn endoredig iawn. Mae yma orlifdir cul. Dominyddir gan 'Gystradau Glo' (Carbonifferaidd) siâl a thywodfaen.

### Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol
Henebion o gynhanes, bryngaerau Oes Haearn ac adeiladau/strwythurau ôl-ganoloesol, sy'n bwysig yn genedlaethol. Mae cyrchfannau gwyliau yn Sir Benfro yn ficrocosm o'r newid mewn arferion gwyliau ym Mhrydain. Mae eu datblygiad ffisegol yn adlewyrchu'r newid. Mae Saundersfoot yn enghraifft.

## Gwerthusiad ac Argymhellion

| ANT Rhif | Ardal Nodwedd | Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyraidd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol | Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Arfordir Setledig Saundersfoot** | 88 - Uchel<br>54 - Canolig<br>55 - Isel | 217- Eithriadol<br>200-Canolig | 481 - Isel<br>541-Uchel<br>885-Canolig<br>533-Canolig | 46160-Uchel<br>46161 - Uchel<br>46162-Uchel<br>46173-Uchel | 003 - Eithriadol<br>439-Uchel |

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:
Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

*(Mae’r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)*

### Nodweddion Arbennig *(Nodweddion Pwysig y Dirwedd)*

- Er bod yna anheddiad sylweddol yn yr ardal, mae’n cynnwys rhai darnau o dir fferm a choetiroedd deniadol hwnt ac yma rhwng yr aneddiadau a’r ffermydd llai
- Mae yma ymdeimlad arfordirol gyda natur agored a golygfeydd deniadol ar hyd yr arfordir. Mae’r olygfa tua’r de o Lanrhath tuag at Ddinbych-y-pysgod yn nodedig oherwydd tirnod amlwg meindwr yr eglwys yn y pellter, a welir uwchlaw Pwynt Monkstone yn y tir canol
- Tua’r tir, mae’r dirwedd ystad wledig a’r cymeriad parcdir o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet yn ddeniadol iawn ac yn nodwedd leol
- Mae yna rai cynefinoedd yma sy’n bwysig yn rhyngwladol, ac yn cyfrannu at werth ecolegol uchel rhannau o’r dirwedd
- Mae’r nodweddion hanesyddol ac archeolegol a gofnodir yma yn ddigon i olygu bod yr ardal gyfan yn haeddu gwerth hanesyddol uchel, yn enwedig creiriau diwydiannol, fel y dramffordd a’r inclein, sy’n elfennau cymharol brin o’r diwydiannau echdynnu lleol sydd wedi goroesi. Mae’r gorffennol diwydiannol hwn yn werth hanesyddol sydd gan nifer o’r trefi a’r pentrefi arfordirol yn y Parc Cenedlaethol
- Mae’r newidiadau diweddar mewn tueddiadau gwyliau wedi erydu’r cymeriad tref glan môr gwreiddiol, ond nid yw’r ymdeimlad hanfodol wedi ei cholli eto.
- Mae gan Saundersfoot Ardal Gadwraeth o amgylch ardal yr hen dref ar hyd glan y môr a’r harbwr (dynodwyd ym Medi 1995)

### Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae’r dirwedd amaethyddol yn cael ei defnyddio mewn ffydd amrywiol gyda chyfran helaeth o leiniau cysgodi a chymoedd coediog dymunol
- Mae perthi sydd wedi gordyfi yn arwydd o’r dirywiad mewn arferion rheoli ffiniau cae traddodiadol
- Mae datblygiadau trefol a thwristaidd modern yr ardal wedi bod yn rhai ansensitif mewn rhai lleoliadau, ac mae hyn wedi arwain at ddirywiad amlwg yng nghyflwr y dref, er nad yw’r dirywiad yn ddramatig.

### Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y traethau tywodlyd a gostwng y perygl o lygredd dŵr cymaint â phosib
- Gwarchod yr adeiladau traddodiadol ar hyd glan môr Saundersfoot, o amgylch yr harbwr ac yng nghanol y dref, yn ogystal â’r ardaloedd gwyrdd sydd wedi eu gorchuddio gan goed tuag at gefn y dref, yn enwedig y tir amaethyddol i’r gorllewin sy’n rhannu’r ddwy ardal adeiledig ac yn cyfrannu’n gryf at yr ymdeimlad o le yn lleol
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig, yn enwedig y dramffordd a’r inclein, er mwyn cadw eu cyfanrwydd a’u cyd-destun gweledol
- Gwarchod cymeriad y brithwaith o dir amaethyddol a choetiroedd, yn enwedig ar dirwedd yr ystad a’r parcdir o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet, a rheoli perthi’n rheolaidd, ar gylch; annog rheolaeth bositif ar gyfer coetiroedd a lleiniau cysgodi
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad perthi traddodiadol a waliau cerrig ar ffiniau cae , yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sgrinio unrhyw estyniadau i safleoedd carafán presennol mewn ffordd fwy sensitif ble mae’r lleoliad yn arbennig o sensitif yn weledol; gwrthod unrhyw feysydd carafannau newydd a gynigir, neu estyniadau i feysydd carafannau , ble mae’r cyd-destun gweledol yn arbennig o sensitif, yn enwedig ar y tir uwch neu ar y gorwel
- Sicrhau, cyhyd ag sy’n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na’u difrodi.